# Fframwaith Llythrennedd - Darllen

# Strategaethau darllen

## 1. Gwytnwch wrth ddarllen

Darllen a dadansoddi yn hyderus destunau newydd a argraffwyd, neu destunau digidol, gan ganolbwyntio ac yn annibynnol

**CC3**

Darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau mwy estynedig

**CC4**

Darllen a dadansoddi ystod o destunau a argraffwyd a thestunau digidol sy'n newydd a diweddaru, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion.

**CC5**

Darllen a dadansoddi ystod o destunau nas gwelwyd o'r blaen, testunau a argraffwyd a thestunau digidol, gan ganolbwyntio ac yn annibynnol.

## 2. Strategaethau darllen i bennu ystyr

Defnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr geiriau a brawddegau

**CC3**

Defnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys:

- gwybodaeth am ffoneg
- gwreiddiau geiriau
- teuluoedd geiriau
- cystrawen
- trefn testunau
- gwybodaeth flaenorol am gyd-destun.

**CC4**

Defnyddio gwybodaeth am:

- wreiddiau geiriau a'u teuluoedd
- gramadeg, strwythur brawddegau a thestunau cyfan
- cynnwys a chyd-destun

i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan.

**CC5**

## 3. Strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth

Defnyddio ystod o strategaethau i gael yr hanfodion, y syniadau a'r themâu allweddol

**CC3**

Defnyddio ystod o strategaethau er mwyn dod o hyd i wybodaeth,e.e. cip ddarllen (sgimio) am yr hanfodion, llithr ddarllen (sganio) am fanylion

**CC4**

Defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael yr hanfodion, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl.

**CC5**

Defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael yr hanfodion, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl, gan ddethol a gwneud sylwadau aeddfed ar y syniadau a'r themâu allweddol.

## 4. Sgiliau dehongli a dod i gasgliad

Defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau

**CC3**

Defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall y testun, ac ystyried dibynadwyedd yr hyn sy'n cael ei ddarllen.

**CC4**

Defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, ac ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn sy'n cael ei ddarllen.

**CC5**

Deall testunau'n llawn drwy ddefnyddio sgiliau dehongli, dod i gasgliad a dadansoddi, gan ddeall cyd-destun y testunau sy'n dylanwadu ar y darllenydd.

## 5. Dehongli syniadau nad ydyn nhw wedi'u mynegi'n benodol

Dangos dealltwriaeth lawn o destunau drwy ddefnyddio sgiliau dehongli, dod i gasgliad a dadansoddi

**CC3**

Dehongli syniadau nad ydyn nhw wedi'u mynegi'n benodol,e.e. safbwyntiau neu agweddau awdur.

**CC4**

Dangos dealltwriaeth lawn o destunau drwy ddefnyddio sgiliau dehongli, dod i gasgliad a dadansoddi.

**CC5**

Dadansoddi ac ymateb i destunau ac is-destunau, gan ddeall, dehongli a gwerthuso ystyr yn hyderus.